



# Datganiad Newyddion / News Release

MR 1257

Medi 9, 2020

I'w Ryddhau

## Annog rhieni i weithio gydag ysgolion i leihau'r risg o'r coronafeirws

Mynegwyd pryder gan y cyngor sir fod rhieni ym Mhowys yn casglu tu allan i gatiâu'r ysgol heb ddilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Mae arweinwyr ysgolion ar draws y sir wedi mynegi pryderon am hyn gyda Chyngor Sir Powys sydd nawr yn annog rhieni i weithio gydag ysgolion i leihau'r risg o ymledu'r coronafeirws.

Dyweddodd y Cyngorydd Phyl Davies, Aelod Cabinet ar Addysg ac Eiddo: "Rydym wedi derbyn sawl adroddiad gan benaethiaid fod rhieni'n casglu ger gatiâu'r ysgol cyn i'r ysgol agor ac ar ddiwedd y dydd.

"Rydym yn gwybod fod nifer o ddisgyblion wedi dechrau'r ysgol gynradd ac uwchradd am y tro cyntaf ac mae plant yn gyffrous, ond rwy'n erfyn ar rieni i gofio am ganllawiau'r coronafeirws ac i weithio gyda'r cyngor a'r ysgol i gadw pawb yn ddiogel.

"Rydym wedi gwneud llawer o waith gydag arweinwyr ysgolion i sicrhau fod plant yn ddiogel yn yr ysgol a lleihau'r risg o ymledu'r feirws. Byddai'n drueni pe bai'r gwaith hwn yn ofer os bydd rhieni a pherthnasau hŷn yn anwybyddu rheolau cadw pellter cymdeithasol ac yn casglu tu allan i gatiâu'r ysgol."

Mae Penaethiaid hefyd wedi mynegi pryderon fod rhieni'n cysylltu ag ysgolion ac yn gofyn iddynt gadarnhau a oes aelod o'r ysgol wedi cael prawf positif o'r coronafeirws.

"Rydym yn deall fod rhai rhieni'n bryderus ac am ddiogelu eu plant, ond mae cysylltu ag ysgol yn gofyn am wybodaeth am unigolyn yn yr hinsawdd sydd ohoni'n beth amhriodol iawn," dywedodd y Cyngorydd Davies.

"Nid gwaith penaeithiaid yw rhoi gwybod i rieni am unrhyw achos posibl o'r coronafeirws yn yr ysgol. Y rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu sy'n gyfrifol am hyn a fyddai'n olrhain cysylltiadau pobl sy'n profi'n bositif er mwyn atal y coronafeirws rhag ymledu."

Rhaid atgoffa rhieni hefyd os bydd plentyn yn dangos unrhyw symptomau, yna dylid eu cadw adref.

“Rydym yn annog rhieni i fod yn ofalus ac i beidio anfon eu plentyn i’r ysgol. Byddai’n beth byrbwyll iawn i rieni anfon plentyn i’r ysgol sy’n dangos symptomau gan y byddai’n peryglu diogelwch disgyblion a staff yr ysgol gyfan”, dywedodd y Cynghorydd Davies.

Rydym hefyd yn atgoffa rhieni i sicrhau eu bod wedi rhoi manylion cyswllt diweddaraf eu plentyn i’r ysgol.

“Mae’r coronafeirws yn dal i fod yn fygythiad go iawn i iechyd y cyhoedd a gallwn ni gyd wneud ein rhan i gadw Powys yn ddiogel”, ychwanegodd y Cynghorydd Davies.

“Nid yn unig ydym yn annog rhieni i gadw pellter cymdeithasol ond hefyd sicrhau bod rhieni a phlant yn golchi eu dwylo’n rheolaidd.”

**DIWEDD**

**MR 1257**

**September 9, 2020**

**For Immediate Release**

## **Parents urged to work with schools to reduce coronavirus risk**

Concerns have been raised that parents in Powys are gathering outside the school gates and are not following social distancing measures, the county council has said.

School leaders across the county have raised the concerns about the gatherings with Powys County Council, who are now urging parents to work with their child’s school to reduce the risk of coronavirus spreading.

Cllr Phyl Davies, Cabinet Member for Education and Property, said: “We have received a number of reports from headteachers that parents are gathering at school gates before school starts and when it finishes for the day.

“We know that many youngsters have started primary and secondary school for this first time and parents and children are excited but I would urge parents to be mindful of the coronavirus guidance and work with the council and the school to keep everyone safe.

“We have done a lot of work with school leaders to make sure that children are safe in their school and that the risk of the virus spreading is minimised. It would be a shame if this work was undone by parents and older relatives ignoring social distancing by gathering outside the school gates.”

Headteachers have also raised concerns that parents are contacting schools asking them to confirm whether a member of the school has tested positive for coronavirus.

“We understand that some parents are anxious and want to protect their child but contacting a school asking for information about any individual in the current climate is inappropriate,” said Cllr Davies.

“It would not be up to headteachers to inform parents about any potential coronavirus case within their school. This would be down to the Test, Trace, Protect programme which would trace the contacts of people who test positive to put a stop to the spread of coronavirus.”

Parents are also being reminded that if their child shows any symptoms then to keep them at home.

“We are urging parents to err on the side of caution and don’t send their child to school. It would be reckless of parents to send their child to school who is showing symptoms as this would jeopardise the safety of pupils and staff at the whole schools,” said Cllr Davies.

Parents are also being reminded to make sure that they have provided their child’s school with up-to-date emergency contact details.

“Coronavirus is still a very real threat to public health and all of us can help to Keep Powys Safe,” said Cllr Davies.

“Not only are we urging parents to observe social distancing but also ensure regular hand washing is being done by both parents and their child.”

ENDS